

Newidiadau diweddar i deddfwriaeth ADY a beth mae'n olygu i ymarferwyr Blynnyddoedd Cynnar ?

Yn Ionawr 2018, pasiwyd y Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Thribiwnlys Ychwanegol er mwyn diwigio a ddisodli systemau (AAA), y Deddf Angenion Addysgol Arbennig, er mwyn creu system unedig ar gyfer cefnogi dysgwyr rhwng 0 i 25 gydag ADY yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'r Deddf Angenion Addysgol Arbennig wedi bod yn presennol o fewn ysgolion ers 1994 (Llywodraeth Cymru, 2004), fodd bynnag, ddangosir ymchwil gan (Llywodraeth Cymru, 2018), fod tua 23 y cant o'n ddysgwyr yma yng Nghymru efo anghenion addysgol arbennig, yn gyffredinol, a cyrhaeddiad academaidd lawer yn is i gymharu a gweddill y ddysgwyr. O ganlyniad, mae'r Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cyflwyno newidiadau sylweddol, yn benderfynol o ddarparu systemau addysg 'gwbl cynhwysol lle mae pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyrraedd ei botensial' (Llywodraeth Cymru, 2018). Aeth system ADY yn fyw yn ysgolion ar draws Cymru yn fis Medi, 2020 a fydd y cyfnod gweithredu yma yn para tair mlynedd, yna erbyn Haf 2023, fydd holl gynlluniau'r SEN yn dod i ben. I dysgu fwy am holl a mcanion y Ddeddf newydd, dilynnwch y ddogfen yma: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/additional-learning-needs-aln-transformation-programme-v2.pdf>.

Anghenion dysgu ychwanegol:

Mae gan y term Anghenion Dysgu Ychwanegol ddiffiniad cyfreithiol ac mae'n cyfeirio at blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu, corfforol, feddyliol neu synhwyraidd sy'n ei gwneud yn anoddach ac yn fwy heriol iddynt ddysgu i gymharu a'u cyfoedion (Dewis Cymru, 2020). Mae'n wir fod pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd ac ar gyfraddau wahanol, ond os yw eu hanghenion yn effeithio ar eu cynnydd yn yr ysgol, yna, mae'n debygol y bydd angen cymorth ychwanegol a rhynt (Cyngor Abertawe, 2019).

All rhai o'r anghenion yma ymddagos fel:

- Awtistiaeth
- Dyslecsia
- Problemau ymddygiadol
- Syndrom Down
- ADHD

Rol yr ALNCo:

O'r 4ydd o Ionawr, 2021, rhaid i bob ysgol briffrwd yng Nghymru ddynodi person

a fydd yn gyfrifol am gydlyn darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Bydd y person yma yn cael ei alw'n ALNCo'r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2021).

Mae rhai enghreifftiau o rol yr ALNCo yn cynnwys:

- Yr ALNCo yw'r unigolyn sydd ar lefel strategol yn sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu diwallu.
- Ni ddigwyllir i'r ALNCo ymwneud yn uniongyrchol â'r broses ddydd i ddydd o gefnogi pob dysgwr ag ADY, ond gall gynorthwyo a chefnogi'r athrawon i sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu.
- Sicrhau gwasanaethau perthnasol a fydd yn cefnogi y dysgwr lle cytunir bod angen gwasanaeth o'r fath. Bydd angen cefnogaeth asiantaethau a gweithwyr proffesiynol allanol ar rai dysgwyr ag ADY, cyfrifoldeb yr ALNCo fydd cysylltu â'r gwasanaethau arbenigol hyn.
- Rhaid i'r ALNCo hyrwyddo cynhwysiant y dysgwyr yng nghymuned yr ysgol.
- Sicrhau bod CDUau yn cael eu datblygu a'u hadolygu'n briodol. (Llywodraeth Cymru, 2021)

AAA i ADY:

Yn cael ei disgrifio gan y Llywodraeth Cymru fel 'ailwampio llwyr o system nad yw'n addas at y di ben mwynach', mae diwygiad y Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol nid yn unig yn effeithio 1 o bob 5 blentyn yng Nghymru, ond hefyd yn cyflwyno newidiadau fawr i'r system (Senedd Cymru, 2021).

Y newid gyntaf yw'r derminoleg, gan fod fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn newid i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Yn ogystal a hyn, o dan y fframwaith newydd, nid yn unig plant oedran ysgol fydd yn cael eu cynnwys, ma'r system ADY yn mynd i parhau o'r blynnyddoedd cynnar ian hyd at addysg bellach, yn darparu cefnogaeth o 0 i 25 mlwydd oed (Senedd Cymru, 2021). Yn olaf, mae'r Deddf yn dod a diwedd i'r gwahaniaeth cyfreddol rhwng ymyria dau dan a rweiniad ysgolion a datganiadau a gyhoeddir gan awdurdodau lleol ac yn eu integreiddio, yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol. Yn ol (Senedd Cymru, 2018) fydd hyn yn ceisio 'gwella cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a byrdau iechyd, yn ogystal â sefydlu system decach a mwy tryloyw gyda mwy o bwyslais ar osgoi anghytundebau a datrys anghydfodau'.

I ddarganfod fwy am y ddiwygiad o systemau AAA i Ddeddf ADY, dilynnwch y linc

yma: <https://www.youtube.com/watch?v=00gHqzWowPg>

Llinell amser gweithredu ADY:



Sut bydd y Deddf newydd yn effeithio'r ymarferwyr Blynnyddoedd Cynnar ? (Llywodraeth Cymru, 2018)

Cynllun Unedig: Bydd Cynlluniau datblygu Unigol yn disodli Cynlluniau Addysg Unigol yr (AAA), o ganlyniad, bydd yr ysgol eu hyn yn penderfynu os oes gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol, a oes felly, yn rhoi CDU ar waith.

Cod orfodol yr ADY: Bydd y Cod ADY yn gosod gofynion gorfodol ar gorff llywodraethu ysgol, mewn perthynas â: penderfyniadau am ADY, para toi, cynnwys, ffurf a cadolygu cynlluniau Datblygu Unigol.

Yr iaith Gymraeg: Os oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg ar blentyn, rhaid dogfennu hyn o fewn CDU a rhaid cymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg.

Pwyslais ar osgoi anghytundebau yn gynnar: Dylai ysgolion sicrhau bod plant, eu rhieni / gofalwyr a phobl ifanc yn cael cynnig cyfleoedd i godi pryderon a bod eu cwestiynau'n cael eu hateb.

Mwy o gydweithredu: Lle bo angen, fydd y CDU yn cynnwys ALP y cytunwyd arno gan wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal, fydd y CDU yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n glir ynghylch pa asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflawni'r elfennau unigol.

Casgliad:

Ers Medi, 2020, mae ysgolion a'r ddysgwyr wedi fod yn dechrau trosglwyddo i'r system ADY newydd sydd wedi disodli'r hen fodel a oedd dros 30 mlwydd oed erbyn hyn (Addysg Cymru, 2020). Mae'r system newydd yn rhoi'r dysgwr fel ei blaenoriaeth, yn anelu at sicrhau fod pawb yn derbyn y cefnogaeth sydd angen arnynt. Er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn hyderus wrth gyflawni'r system newydd, bydd swm sylweddol o arian yn cael ei gyfeirio tuag at ddatblygu'r gweithlu (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad). Maent yn targedu datblygu'r gweithlu ar dair lefel; Datblygu sgiliau craidd i'r holl ymarferwyr, Datblygu sgiliau uwch trwy sefydlu rôl Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCos), ynghyd a datblygu sgiliau arbenigol ar gyfer awdurdod lleol.